**Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn (Zoom)**

**1/2/2022**

**Presennol: Y Cynghorwyr** Dewi Wyn Jones, (Cadeirydd), Beryl Hughes Griffiths, (Is-gadeirydd), Huw Antur, Branwen Haf, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Alwyn Roberts, Euros Roberts, Huw P Roberts

Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**Cyhoedd:** neb yn bresennol.

2328 Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

2329 Nid oedd ymddiheuriadau.

2330 Nid oedd Datganiadau o Fuddiant

2331 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion 4/1/22 a Chofnodion Cyfarfod Arbennig 30/1/22

2332 **Materion y Clerc:**

i. Lloches Maesypandy: mae Cyngor Gwynedd yn adnewyddu llochesi ar daith y bws T3, ac mae cais wedi ei wneud i gael un sbâr ar gyfer maes chwarae Maesypandy.
ii. Rhannwyd adroddiad o weithdy Twristiaeth Gynaliadwy 27/1/22
iii. Rhannu gwybodaeth am waith y Cyngor: cytunwyd y gellid rhoi cyhoeddiad byr yn *Pethe Penllyn* gan gynnwys cyfeiriad at y wefan. Gellid rhoi dolen i'r wefan ar fb hefyd.
iv. Derbyniwyd grant o £125 ar gyfer ail-godi Teulu Gwalia i goffrau'r Cyngor ac mae swyddogion Teulu Gwalia yn gwneud trefniadau efo'r Eagles. Mae'r swyddogion yn ddiolchgar iawn am yr hwb hwn i'w gweithgareddau.

2333 **Cyngor Gwynedd** -derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Alan Jones Evans a ddywedodd ei fod wedi bod mewn cysylltiad gyda Dŵr Cymru ynglŷn ag adfer y Gilfach Goffa yn dilyn y tyllu a fu yno yn ddiweddar. Cafodd ymateb positif ac mae'n aros am fanylion dyddiadau.

Cysylltodd gyda'r Adran Gymunedol yng Nghyngor Gwynedd am gefnogaeth gyda dathliadau can mlwyddiant yr Urdd, ac mae'n aros am ymateb.

Fe wnaeth Alwyn Meirion Jones ac yntau gyfarfod Derec Morgan o Ymgynghoriaeth Cyngor Gwynedd i drafod y posibiliadau am wella diogelwch yn ardal Pont Lliw, Llwybr Cei, a Llwybr Tegid. Mae "deviation from Standard" yn cynnig datrysiad posib. Trafodwyd hefyd symud y giât nes lawr Llwybr Cei fel bo lle i wthio pram mewn i'r llwybr o'r ffordd fawr cyn agor y giât. Holwyd hefyd am achosion o ddigwyddiadau er mwyn cryfhau'r cais am welliant.

Diolchwyd iddo gan drigolion am drefnu'r sgubwr ffordd i'r pentref yn syth ar ôl derbyn cwyn; mynegwyd gwerthfawrogiad cynnes o holl waith y Cyngor Cymuned hefyd. Dywedodd ei fod wedi gofyn i Adran y Priffyrdd am rota ymweliadau ynghynt yn y tymor ac yn ôl y galw.

Dywedodd ei fod wedi llwyddo i newid y cymal a oedd yn atal pobl ifanc rhag cael cymorth i brynu tai yn lleol. Anogodd pobl i ymateb i'r ymgynghoriadau diweddar am newid i ddeddfau ynglŷn a thai i bobl leol.

Diolchwyd yn gynnes i'r Cynghorydd Alan Jones Evans am ei adroddiad a'i waith.

Holwyd y Cynghorydd a oedd yn bosib trefnu golau ar y ddau gerflun, yn arbennig yn y flwyddyn hon o ddathlu, ac addawodd y Cynghorydd i holi Adran y Priffyrdd.

2334 **Is-bwyllgorau**

Sylfeini: Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Alan Jones Evans a Huw Antur ar gyfarfod diweddar. Cafwyd ymateb calonogol oddi wrth Grŵp Cynefin. Bydd Craig ap Iago yn trafod cynllun tai Cyngor Gwynedd gyda'r grŵp yn y dyddiau nesaf. Adroddodd Beryl Hughes Griffiths iddi dderbyn nifer sylweddol a syfrdanol o ymatebion i neges a roddodd ar Facebook. Cafwyd neges gadarnhaol iawn oddi wrth Gadeirydd Bwrdd Cynefin yn mynegi parodrwydd clir i gyd-weithio. Diolchwyd i bawb am eu neges a'u gwaith.

Pwyllgor Dathliadau'r Urdd yn 100 oed. Cytunwyd fod y Cyngor yn rhoi cefnogaeth i gynnal Gŵyl ar ddechrau'r haf. Cymeradwywyd y syniad o osod arwyddion ar gyrion y pentref i nodi mai Llanuwchllyn oedd crud yr Urdd. Mae trafodaethau am nodi Neuadd Wen fel cartref Syr Ifan. Bydd baneri yn cael eu gosod ac efallai baneri eraill hefyd.

2335 **Adroddiadau Cynghorwyr:**

i. Gaiman – dywedodd Beryl Hughes Griffiths mai tawel iawn yw'r cyfathrebu o'r Gaiman ar hyn o bryd
ii. Asedau –

- Cytunwyd i ofyn am brisiau symud lleoliad y giât, gan roi gwybod i swyddogion lleol Parc Cenedlaethol Eryri a Chyngor Gwynedd .
- Trafodwyd yr angen am dwtio'r ciosg nes at yr haf ym Mhenantlliw gan fod y strwythur bellach wedi'i ddiogelu.
- Mae'r Brodyr Owain a Siôn Williams Homes wedi addo cyflenwad o bridd am ddim ar gyfer y fynwent a diolchwyd yn gynnes iawn am hyn.
- Nodwyd fod angen difa tyrchod a gofynnwyd i Rhodri Prys Jones drefnu hyn.
- Polisi'r Fynwent – mae angen gosod y fersiwn ddiwygiedig ar y wefan.

2336 **Partneriaeth Penllyn** -derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr am ei rôl newydd fel Hwb Llesiant a fydd yn parhau am 5 mlynedd. Mae swydd rhan amser ar gael a gofynnwyd i'r aelodau ledu'r wybodaeth am hyn.

2337 **Ariannol** – derbyniwyd adroddiad y SAC a chytunwyd i'r taliadau sydd angen eu gwneud. Bydd taliadau bellach yn cael eu gwneud dros y we. Dywedodd Bethan Edwards fod ganddi e-bost newydd ar gyfer materion cyllid y Cyngor ac y bydd yn ei rannu yn fuan.

Cymeradwywyd y taliadau canlynol:

| | |
|---|---|
| Martin Jones - ffrâm coeden Nadolig | £120.00 |
| Siop Celt - Coeden Nadolig y Gilfach | £60.00 |
| CCF – nwyddau toiledau | £20.50 |
| Cyfraniadau cymunedol 2020-21 | £1350.00 |

Taliadau o dan Gytundebau: Cyflog, CThEM, costau swyddfa, Glanhau

Bydd Cyfraniadau Ariannol 2021-22 yn cael eu rhannu yng nghyfarfod Mawrth. Gwahoddir ceisiadau (gan gynnwys manylion banc).

2338 **Ceisiadau Cynllunio** - dim

2339 **Un Llais Cymru** – rhannwyd gwybodaeth am y rhaglen hyfforddi

2340 **Gohebiaeth - Derbyniwyd**

i. Llywodraeth Cymru: Gofynnwyd i'r Clerc ymateb i'r ymgynghoriadau.
ii. Llywodraeth Cymru: Ymgynghoriad ar ddeddf Llywodraeth Leol 2022. Cafwyd trafodaeth ar y wahanol elfennau a fydd yn ddisgwyliadwy.
Nid yw'r adnoddau yn Llanuwchllyn ar hyn o bryd ar gyfer cynnal cyfarfodydd hybrid ond disgwylir y bydd hwn ar gael cyn hir. Cytunwyd fod angen ymateb i'r Ymgynghoriad trwy ddweud bod angen bod yn gymesur wrth lunio'r adroddiad blynyddol a bod y gofynion wedi cyrraedd yn hwyr iawn i'w gyflawni erbyn Ebrill 2022.
iii. Mabon ap Gwynfor – gwybodaeth am ganolfannau diagnostig cancr a ddaw i ysbytai'r gogledd.
iv. Mabon ap Gwynfor – cymeradwywyd codi mast yng Nghynllwyd.

2341 **Materion lleol:**

i. Derbyniwyd mynegiant o gonsyrn a phryder gan drigolion oherwydd iddynt dderbyn llythyr yn cynnig gwerthu eu tŷ. Gofynnwyd i'r Clerc anfon at y cwmni i ddweud fod eu gohebiaeth wedi achosi pryder ac aflonyddwch. Tynnir sylw'r Aelodau Seneddol at hyn.
ii. Anfonwyd llythyr at y Syrjeri ym mis Rhagfyr yn diolch am y gwasanaeth arbennig a geir, ond ni chafwyd ymateb hyd yn hyn i bryderon nad yw'r llinell Gymraeg ar gael bob amser. Roedd yr aelodau o'r farn ei bod yn rhy fuan ar yr adeg brysur hon efallai i dderbyn ymateb.
iii. Derbyniwyd gwybodaeth y bydd ffilmio yn digwydd yn y fynwent ar 18/2/22
iv. Triathlon Y Bala: Gwelwyd hysbysiad fod trefniadau mewn llaw ar gyfer cynnal y digwyddiad ym Medi 2022 er bod Cyngor Cymuned Llanuwchllyn wedi gwrthwynebu. Gofynnwyd i ddatgan siom fod y cyhoeddiad wedi ei wneud a'u holi am y prosesau a gymerwyd. Mae hyn yn ategu nad yw prosesau cyfathrebu'r trefnwyr yn ddigon da.

Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf 1/3/22 trwy gyfrwng Zoom